**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 6 Medi 2017**

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes (PH) | Cadeirydd |
| Ifan Lloyd (IL) | |
| Jo Price (JP) | |
| David Davies (DD) | |
| Moss Jones (MJ) | |
| Abi Reader (AR) | |
| Paula Boyden (PB) | |

**Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Gavin Watkins (GW) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Jackie Price (rhan o'r cyfarfod) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Paul Critchley (PC) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Nikki Fitzgerald (NF) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Tony Jermyn (rhan o'r cyfarfod) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

Peter Jinman - FAWC (Eitem 6)
Nic De Brauwere – AWNW (Eitem 7)

**Ymddiheuriadau**

Christianne Glossop Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

**<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i drydydd cyfarfod ar ddeg y Grŵp. Llongyfarchodd Nikki Fitzgerald ar ei phenodiad i OCVO a dywedodd eu bod yn edrych ymlaen at gydweithio yn y dyfodol.

2. Nodwyd fod Christianne Glossop wedi ymddiheuro am ei habsenoldeb ac y byddai GW yn bresennol yn ei lle. Eglurodd y Cadeirydd wrth y Grŵp fod Peter Jinman a Nic De Brauwere yn ymuno â'r cyfarfod i roi diweddariad ac i ateb unrhyw gwestiynau'n ymwneud â FAWC ac AWNW yn y drefn honno.

3. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i bawb a fu ar ddyletswydd ar stondin Llywodraeth Cymru yn y Sioe Frenhinol.

**<u>Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu yn dilyn cyfarfod 14 Mehefin</u>**

4. Eglurodd y Cadeirydd y cofnodon terfynol a'r pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd o'r cyfarfod diwethaf a oedd wedi cael eu e-bostio ar Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

5. Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

**<u>Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd</u>**

6. Cafwyd y diweddariad canlynol gan y Cadeirydd;

**a) Cynllun Gwaedu BVD**

Mynegwyd bodlonrwydd fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi'r cynllun Gwaredu BVD yn y Sioe Frenhinol a bod digwyddiad lansio wedi'u drefnu ar gyfer 7 Medi mewn fferm arddangos Cyswllt Ffermio yn y Trallwng. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Grŵp y byddai'n bresennol a mynegodd ei ddiolchgarwch i bawb a fu'n gysylltiedig â sefydlu'r cynllun.

Cadarnhaodd IL fod practisau milfeddygol wedi cael eu hyfforddiant gan Neil Paton a'u bod yn barod i'w weithredu.

Clywodd y grŵp fod Labordy WVSC yn Aberystwyth yn aros am ganlyniad asesiad achredu ULAS yr wythnos hon, ac a fyddai wedyn yn caniatáu iddi gael ei hychwanegu at restr Gwaredu BVD o labordai cymeradwy.

Yn gysylltiedig â hyn, cadarnhaodd AR ei bod wedi llwyddo i gael arian trwy Gyswllt Ffermio i ymweld â Sweden, yr Alban ac Iwerddon i edrych ar eu bioddiogelwch ac arferion gweithio BVD. Bydd AR yn rhannu unrhyw wybodaeth â'r Grŵp.

Cododd y Cadeirydd bwynt yn ymwneud â llywodraethu, a chytunodd y Grŵp ei bod yn hanfodol eu bod yn cadw golwg ar y Cynllun Gwaredu BVD.

| |
|---|
| **Pwynt gweithredu 1 > Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn am ddiweddariad chwarterol gan Gwaredu BVD a fydd yn cael ei ystyried ym mhob cyfarfod.** |

**b) Y Cyfarfod Nesaf ag Ysgrifennydd y Cabinet**

Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Tachwedd i'w diweddaru ar waith y Grŵp Fframwaith a bydd yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf WAHWFG ar 22 Tachwedd.

**c) Cyfarfod Cynllunio Iechyd Anifeiliaid - MJ**

Gwahoddodd y Cadeirydd MJ i'w diweddaru ar gyfarfodydd yr is-grŵp Cynllunio Iechyd Anifeiliaid.

Cadarnhaodd MJ fod y cyfarfodydd yn gwneud cynnydd da a bod y grŵp wedi cael cyflwyniad ar y Model Segmentu Ffermwyr. Dywedodd MJ fod y grŵp wedi cytuno bod angen i unrhyw anghenion AHP ategu a chyd-fynd â'r cynlluniau sicrwydd presennol.

Nododd MJ mai'r bwriad oedd paratoi adroddiad a oedd yn cyflwyno'r casgliadau ac argymhellion y grŵp yng nghyfarfod nesaf WAHWFG ym mis Tachwedd.

**d) Diweddariad ar Brexit – diweddariad gan aelodau**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eistedd ar Weithgorau Bwrdd Crwn yr UE a chadarnhaodd pwy oedd wedi cytuno i eistedd ar bob Grŵp fel a ganlyn:

- Gweithgor Deddfwriaeth a Rheoleiddio - MJ
- Gweithgor Masnach a Chadwynau Cyflenwi – DD
- Gweithgor Rheolaeth Tir – PH
- Gweithgor Tystiolaeth a Senarios - IL

Gwahoddodd y Cadeirydd bawb i roi diweddariad ar eu cyfarfodydd:

Dywedodd DD fod presenoldeb da yn y cyfarfodydd a bod pethau'n mynd i'r cyfeiriad cywir a bod disgwyl cynhyrchu papur yn yr hydref. Roedd diffyg manylion yn gysylltiedig â chanlyniadau yn y dyfodol fel y marchnadoedd a fyddai ar gael yn effeithio ar allu BBChau i gael cynlluniau buddsoddi'n barod erbyn 2025. Mae Allforion Byw yn bwnc llosg a dywedodd DD y bydd yn monitro hyn yn ofalus ar gyfer materion iechyd a lles anifeiliaid.

Awgrymodd MJ fod yr hinsawdd ddeddfwriaethol yn ddryslyd a dyna pam yr oedd wedi gofyn am ddiweddariad ar Gyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE (Eitem ddiweddarach ar yr Agenda).

Dywedodd IL fod pedwar o gyfarfodydd y grŵp compact wedi'u cynnal hyd yma, a'u bod wedi canolbwyntio ar y gwahanol senarios i ganfod y prif flaenoriaethau (cyffredin) ar gyfer pob un. Roedd Ken Stebbings yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf a chafwyd cyflwyniad ganddo ar y gwahanol sectorau a'r mathau o ffermydd yng Nghymru. Roedd y grŵp ar hyn o bryd yn paratoi dogfen argymhellion ar gyfer y Bwrdd Crwn.

| |
|---|
| **Pwynt gweithredu 2 > IL i rannu copi o'r cyflwyniad PowerPoint â'r Ysgrifenyddiaeth.** |

| |
|---|
| **Pwynt gweithredu 3 > Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r cyflwyniad PowerPoint ymhlith gweddill y grŵp.** |

Dywedodd PH fod ei grŵp yn cytuno ar beth ddylai'r prif senarios fod ac eglurodd fod rhaniad pendant ar hyn o bryd rhwng y sectorau amgylchedd a ffermio. Maent hefyd yn ystyried y gwahanol ffrydiau cyllido (anllywodraethol) sydd ar gael a'r materion sy'n gysylltiedig â mynediad agored i ffermydd.

**<u>Eitem Agenda 4: Diweddariad gan Gavin Watkins a Jackie Price</u>**

7. Cyflwynwyd Jackie Price gan Gavin ac fe'i gwahoddodd i roi diweddariad ar y gwaith TB Buchol ac yna rhoddodd ei ddiweddariadau ei hun fel a ganlyn;

- **Diweddariad TB**
  Yn dilyn y cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet ar 20 Mehefin, cadarnhaodd Jackie fod rhaglen gwaredu TB ddiwygiedig, yn seiliedig ar ddull rhanbarthol, wedi cael ei datblygu. Atgoffwyd y Grŵp y bydd yn dod i rym ar 1 Hydref a bod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu gwneud datganiad llafar gerbron y Cynulliad ar 3 Hydref. Mae'r diwydiant yn dal i ymgysylltu ac mae llinell gymorth i ateb unrhyw ymholiadau neu bryderon wedi'i hagor. I ategu hyn, mae taflen Holi ac Ateb ar gael trwy dudalennau gwe Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Yn dilyn ymholiad gan y Grŵp yn ymwneud â materion yn gysylltiedig â sioeau, cadarnhaodd Jackie fod Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n glos â Defra i ystyried profiadau yn Lloegr hyd yma.

- **Gwyliadwriaeth**
  Dywedodd GW fod adroddiad adolygu drafft Bwrdd Gwyliadwriaeth Cymru a Lloegr yn cael ei ystyried gan Brif Swyddogion Milfeddygol a Gweinidogion. Mae angen parhaus i'r Diwydiant a Llywodraeth i gyfrannu at wyliadwriaeth. Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol (Graeme Cook) yn adolygu trefniadau cyflwyno data gwyliadwriaeth trwy Bost Mortem ar lefel y DU.

**Pwynt gweithredu 4 > GW i ddosbarthu copïau o bapurau'r Bwrdd Llywodraethu Gwyliadwriaeth i'r ysgrifenyddiaeth i'w dosbarthu i aelodau'r WAHWFG.**

- **Cynllun Gwaredu Carcasau**
  Cadarnhaodd GW y bydd y cynllun gwaredu carcasau'n cael ei ymestyn am ddwy flynedd arall.

- **Salmonela**
  Dywedodd GW fod Labordy Aberystwyth wedi canfod presenoldeb Salmonela mewn defaid, a bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mae'r niwclews salmonela a ganfuwyd wedi ei gysylltu ag achosion Iechyd Cyhoeddus sy'n destun ymchwiliadau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

- **Synwyryddion Da Byw**
  Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn argymell cyflwyno synwyryddion da byw i helpu i olrhain a monitro lles da byw. Mae cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghaeredin ar 28 Medi i ystyried y mater.

- **Clefydau**
  Anemia Heintus Ceffylaidd – mae ymchwiliad i geffylau sy'n tarddu o'r Ariannin.
  Metritws Ceffylaidd Heintus – mae'r diwydiant yn pwyso am reolaeth CEM i gael ei arwain gan Filfeddygon.
  Clefyd y Croen Talpiog – mae gwaith yn parhau i ddatblygu Strategaeth i reoli'r clefyd.

- **Arolwg Moch Daear a Ganfuwyd yn Farw**
  Mae'r tendr ar gyfer y gwaith hwn wedi'i gyhoeddi a bydd yn cael ei ddyfarnu'n fuan.

**Eitem Agenda 5: Trafodaeth gyfathrebu ar weithdai posibl ar gyfer rhanddeiliaid / pobl ifanc**

8. Atgoffodd y Cadeirydd bawb fel rhan o'r gwaith i godi proffil y Grŵp a'r Fframwaith, y cytunwyd yn y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ac yng nghyfarfod Mehefin y byddai'r Grŵp yn trefnu gweithdai ar gyfer y genhedlaeth iau.

9. Gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth ar ba fath o weithdai yr hoffent eu cynnal, pa bryd ac ym mhle, y cynnwys a phwy ddylai eu hwyluso.

10. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:
    - Defnyddio cynhadledd flynyddol materion gwledig Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (RWS i gynnal y gweithdy ym mis Ionawr)
    - Targedu colegau hyfforddi Tir, fel Gelli Aur, i gynnal y digwyddiadau.
    - Trafod â Ffermwyr y Dyfodol
    - Yr angen i ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a'r tîm cyfathrebu mewn Addysg i ymestyn ein cyrhaeddiad
    - Ystyried gwaith mewn ysgolion hefyd er mwyn cyrraedd holl geidwaid / perchnogion posibl anifeiliaid
    - Ystyried sut y mae seminarau Bwyd HCC yn rhoi pwyslais ar darddiad bwyd a pherchnogaeth gyfrifol.

11. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod gyda'r dasg o ddatblygu'r elfen hon ar gyfer y dyfodol.

**Pwynt gweithredu 5 > Yr Ysgrifenyddiaeth i gytuno ar y gwahoddedigion ag aelodau'r WAHWFG a threfnu cyfarfod i ystyried gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid / pobl ifanc.**

**Eitem Agenda 6: Diweddariad a thrafodaeth â Peter Jinman (Cadeirydd) y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm**

12. Croesawodd y Cadeirydd Peter Jinman, Cadeirydd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC). Cafwyd cyflwyniad ganddo ar ôl y FAWC, ei gyfansoddiad a'r prosiectau cyfredol a diweddar. Diolchodd y Cadeirydd i Peter am ei gyflwyniad.

13. Mae'r FAWC yn bwyllgor sy'n cynghori'r Llywodraeth ac mae'n adrodd yn ôl i weinyddiaethau Prydain a Gogledd Iwerddon ar les anifeiliaid ar adeg eu lladd.

14. Dywedodd Peter fod 12 aelod annibynnol o'r FAWC ar hyn o bryd, ond bod moratoriwm ar recriwtio i gael ei godi cyn hir a'u bod yn awyddus i recriwtio rhagor o aelodau, yn enwedig rhai â phrofiad o anifeiliaid bach sy'n cnoi cil. Mae'n broses ddethol agored gyda'r panel penodi'n cael ei redeg gan Defra a gwahoddwyd y Grŵp i ystyried ymgeiswyr posibl o Gymru.

15. Cafodd Peter ei hysbysu o flaenoriaethau presennol y Grŵp Fframwaith fel sydd yng Nghynllun Gweithredu 2017/2018 a chytunwyd y byddid yn cadw mewn cysylltiad.

**Pwynt gweithredu 6 > Yr Ysgrifenyddiaeth i roi dolen Peter Jinman at Gynllun Gweithredu 2017/2018**

**Pwynt gweithredu 7 >Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau proses benodi'r FAWC ac i hysbysu aelodau WAHWFG. Pawb i ystyried ymgeiswyr posibl o Gymru ar gyfer y FAWC**

**CINIO**

**Eitem Agenda 7: Diweddariad a thrafodaeth â Nic De Brauwere (Cadeirydd am y tro) Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW)**

16. Croesawodd y Cadeirydd Nic De Brauwere (a oedd yn cymryd lle'r Cadeirydd) o Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW). Eglurodd Nic De Brauwere fod blaenoriaethau AWNW wedi cael eu hadolygu eleni a bod y Grŵp yn awr yn gweithio ar y canlynol:

- Sioe deithiol perchnogaeth gyfrifol anifeiliaid anwes
- Anifeiliaid anwes ar werth ar-lein
- Cod Ymarfer Llochesi

17. Diolchodd y Cadeirydd i Peter am ei gyflwyniad diddorol a chytunwyd y dylai'r Grŵp Fframwaith barhau i ymgysylltu ag AWNW, trwy rannu gwybodaeth a mynychu cyfarfodydd.

**Eitem Agenda 8: Trafodaeth ar y ffordd ymlaen yn dilyn trafodaethau cynharach â FAWC ac AWNW**

18. Gan fod yr Eitem wedi cael ei thrafod fel rhan o'r agenda flaenorol, symudodd y grŵp ymlaen i'r eitem nesaf.

**Eitem Agenda 9. Diweddariad a thrafodaeth ar effaith Brexit ar iechyd a lles anifeiliaid**

19. Croesawodd y Cadeirydd Tony Jermyn i'r cyfarfod, a chafwyd diweddariad ganddo ar waith Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE a goblygiadau Brexit.

20. Cafwyd diweddariad gan GW ar waith Brexit OCVO ac ar yr ymgysylltu a fu hyd yma.

21. Mynegodd MJ bryderon ynglŷn â safbwynt y DU ar Gyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE sy'n cael ei datblygu ac roedd yn ansicr o hyd ynglŷn â sut yr oedd hyn yn datblygu, ynglŷn â dilyn rheolau'r UE ar ôl gadael, a sut y gallai hynny effeithio ar reolau'r WTO. Awgrymodd y byddai'n lleisio'i bryderon yng Ngweithgor Bwrdd Crwn yr UE.

22. Diolchodd y Cadeirydd i Tony a GW am ddiweddaru'r Grŵp a gofynnodd am i hyn fod yn Eitem Agenda sefydlog yn y cyfarfodydd o hyn ymlaen i sicrhau bod y Grŵp yn cael ei ddiweddaru.

**Eitem Agenda 10.  Unrhyw Fater Arall**

23. Trafodwyd yr Eitemau canlynol o dan Unrhyw Fater Arall:

**CCTV mewn Lladd-dai**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael ac wedi rhoi ymateb dros dro i lythyr Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn ymwneud â CCTV mewn lladd-dai.

Dywedodd PC wrth y Grŵp fod Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried ystod eang o safbwyntiau gan bob ochr o'r ddadl, cyn pwyso a mesur y goblygiadau a phenderfynu ar gamau pellach erbyn diwedd y tymor hwn.

**Y Clafr**

Gofynnodd y Grŵp am ddiweddariad yn dilyn cyflwyno'r Adroddiad ar y Claf i Ysgrifennydd y Cabinet.

Nododd PC fod ymateb wedi cyrraedd ac y byddai copi'n cael ei ddosbarthu ymhlith y Grŵp.

**Pwynt gweithredu 8 > Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copi o'r ymateb ar adroddiad y Clafr i aelodau'r Grŵp.**

**TSE**

Hysbysodd PC y Grŵp y bydd ymgynghoriad ar grynhoi a diweddaru'r rheoliadau TSE yng Nghymru'n cael ei lansio ddiwedd Medi neu ddechrau Hydref, a gofynnodd i'r Grŵp ei ystyried ac ymateb iddo.

**Pwynt gweithredu 9 > Yr Ysgrifenyddiaeth i roi dolen i aelodau WAHWFG ar yr ymgynghoriad TSE pan gaiff ei lansio.**

**Adroddiad RUMOR VMD**

Dywedodd GW fod VMD wedi cynhyrchu adroddiad ac yr hoffai pe bai'r Grŵp yn ei ystyried ac yn ymateb iddo ar fyrder.

**Pwynt gweithredu 10 > GW i ddosbarthu copïau o adroddiad VMD i'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn ei anfon ymlaen i aelodau WAHWFG.**

**Erthygl yng nghylchgrawn Dairy Farmer ar 'selio tethi'**

Rhannodd MJ gopi â'r Grŵp o erthygl yng nghylchgrawn Dairy Farmer yn ymwneud â selio tethi.

Cytunodd y Grŵp fod hwn yn arfer gwrthun ac y dylent ysgrifennu at Gymdeithas yr Ysgrifenyddion Sioeau i ofyn am ddiweddariadau ganddynt ar yr hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau bod hyn yn cael ei ganfod a bod achosion yn cael eu hysbysu.

Cytunodd y Grŵp hefyd i gynnwys pryderon anifeiliaid eraill yn ei lythyr, gan gynnwys marchogion gordew ar geffylau bach mewn sioeau.

**Pwynt gweithredu 11 > Yr Ysgrifenyddiaeth i lunio llythyr at Gymdeithas yr Ysgrifenyddion Sioeau gan gysylltu â WAHFG i gytuno ar gynnwys y llythyr.**

**DIWEDD**